

## CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS.

### BETWS YN RHOS AND LLANELIAN YN RHOS COMMUNITY COUNCIL

CLERC : Mel Jones, 2 Lon Hafan Abergele LL22 8QJ  
Ffon : 07833 548435 e-bost : [clerc@betwsallanelian.org.uk](mailto:clerc@betwsallanelian.org.uk)

### **COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD YN PAFILIWN CHWARAEON, BETWS YN RHOS 7.30 y.h. NOS LUN 6ed IONAWR 2025.**

#### **1. CROESO**

Croesawyd y Cynghorydd John EVANS pawb i'r cyfarfod a dymunwyd blwyddyn newydd dda i pawb.

#### **2. YN BRESENNOL**

Y Cynghorion John EVANS, Irwedd GRIFFITHS, Glenna HUMPHREY, Goronwy R. WILLIAMS, Gethin OWEN, D. Gwyn JONES, Hefin WILLIAMS, Cynghorydd y Sir - Ifor G. LLOYD Clerc – Mel JONES

#### **3. YMDDIHEURIADAU**

Cynghorion Gwenda DAVIES a Bryn JONES

#### **4. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny.

Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD yn nawr yn Gadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau yn ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

Roedd datganiad o ddiddordeb mewn materion cynllunio gan y Cynghorion Hefin WILLIAMS a Glenna HUMPHREY

#### **5. COFNODION**

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 4ydd Tachwedd 2024 (Cynnig – Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS ac eilwyd gan y Cynghorydd Hefin WILLIAMS)

## 6. MATERION YN CODI

Roedd dim materion yn codi.

## 7. CYLLID

Cafwyd Adroddiad Misol am y cyfnod ddod i ben 20fed Tachwedd 2024 ac am y cyfnod ddod i ben 20fed Rhagfyr 2024.

### Dod i ben 20fed Tachwedd 2024

**Cyfrif Cymunedol** = £6,171.40 (Dwyn Ymlaen)

Arian i Mewn = DIM

Arian Allan

= £570.12 (Cyflog y Clerc – SO)

= £284.80 (HMRC dau daliad)

= £54.00 (Siec 200158 Bryn Jones Coeden Mwnci)

= £49.00 (Siec 200160 Dongle Llanelian)

= £50.00 (Siec 200157 RBL Torchion)

= £1,917.99 (Siec 200159 Teledu Wifi)

= £5.00 (Costau Banc)

= £195.76 (Anfoneb BT)

**Cyfrif Cymunedol** = £3,044.73 (Cludwyd Ymlaen)

**Cyfrif Busnes** = £5,725.57 (Dwyn Ymlaen)

Arian Allan DIM

Arian i Mewn DIM

**Cyfrif Busnes** = £5,725.57 (Cludwyd Ymlaen)

**Cyfanswm** = **£8,770.30 (Cludwyd Ymlaen)**

### Dod i ben 20fed Rhagfyr 2024

**Cyfrif Cymunedol** = £3,044.73 (Dwyn Ymlaen)

Arian i Mewn	= £1,700.00 (O Cyfrif Busnes)
	= £4,333.00 (Preasept Sir Conwy)
Arian Allan	= £570.12 (Cyflog y Clerc – SO)
	= £142.40 (HMRC )
	= £240.00 (Pads Defibrilwyr)
	= £1,200.00 (Mynwent Trofarth)
	= £450.00 (Cinio Henoed Llanelian)
	= £500.00 (Mynwent Betws yn Rhos)
	= £6.60 (Costau Banc)
	= £86.28 (Anfoneb BT)

**Cyfrif Cymunedol** = £5,882.33(Cludwyd Ymlaen)

<b><u>Cyfrif Busnes</u></b>	= £5,725.57 (Dwyn Ymlaen)
Arian Allan	= £1,700 (i Cyfrif Cymunedol)
Arian i Mewn	= £27.09 (Llog at 5-12-24)

**Cyfrif Busnes** = £4,052.66 (Cludwyd Ymlaen)

**Cyfanswm** = **£9,934.99**

**(Cludwyd Ymlaen)**

Nododd yr aelodau y sefyllfa araiannol a'r adroddiadau banc fel a restrir uwchben.

Cytunodd pawb a'r adroddiadau yma.

Yn dilyn yr Archwiliad Mewnol mae'n rhaid yn awr gael cytundeb y Cyngor i dalu pob anfoneb

Mae'r anfonebau/ceisiadau a restrir isod angen ei talu:

- £86.28 BT – Anfoneb misol WiFi Betws a Llanelian
- £62.38 – Anfoneb Aston Hughes gwaith cyflog
- £135.00 - Anfoneb cost Pafiliwn Chwaraeon, Betws yn Rhos 2024
- £100.00 – Anfoneb cost Neuadd Llanelian – 2025
- £127.11 – Cost fferins gan Santa i blant Betws

£218.87 – Cost Cinio yr henoed Betws.

£40.00 – Trwydded GDPR

Cytunodd pawb i'r Clerc dalu yr anfonebau yma.

## 8. GOHEBIAETH

### Derbynwyd

1. Ebyst arferol oddi wrth Un Llais Cymru, Gwasanaeth Cyhoeddus Gweithredol ayyb gyda'r rhai perthnasol yn cael ei gyrru ymlaen i'r Cynghorwyr. Mae rhain ar gael gan y Clerc

### Anfonwyd

1. Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC
2. Llythyrau ac ebyst i'r Cynghorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.

## 9. GRANTIAU

### a. Ceisiadau i'r Cyngor

Diweddariad gan y Clerc fod taliad o £1,200 wedi cael ei wneud at y gost o dorri glaswellt yn Mynwent Trofarth fel sonwyd yn y llythyr gan Mrs Ann Vaughan.

Mae y Clerc wedi gofyn i Mrs Ann Vaughan yrru cais am yr arian pob blwyddyn.

Diweddariad gan y Clerc fod amserlen o daliad o £2,000 i Fynwent Betws yn Rhos wedi cael ei drefnu.

20-12-24 £500.00

21-12-24 £500.00

22-12-24 £500.00

23-12-24 £500.00

Mae y Clerc wedi gofyn i Mrs Sue Pinney yrru cais am yr arian pob blwyddyn.

Diweddariad gan y Clerc fod £450.00 wedi ei dalu tuag at cinio henoed Llanelian fel oedd cydweld yn y cyfarfod mis diwethaf.

**LLythyr o ddiolch wedi cael ei dderbyn gan Mrs Delyth Jones ar rhan cymuned Llanelian.**

Taliad o £127.11 am fferins i Parti Santa plant Betws a £218.87 tuag at Cinio Henoed, Betws wedi cael ei dalu fel oedd cydweld yn y cyfarfod diwethaf.

**b. Ceisiadau gan y Cyngor**

Mae CVSC yn awr yn rhoi cymorth i'r Cyngor chwilio am grantiau i gefnogi projectau o fewn y gymuned.

Fydd yn gofyn rhoid cais i mewn yn y dyfodol i atgyweiro cae chwarae Betws yn Rhos.

**10. CYNLLUNIO - <http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer>**

**CAIS NEWYDD**

**Cyfeirnod: 0/52229**

**Ymgeisydd: Mr Hefin Williams**

Cynllun: Pit slyri newydd i gefnogi stoc gyfredol y fferm yn unol â'r deddfwriaethau diweddaraf

Safle: Caeau Bedw Nentydd Road Rhyd Y Foel Betws Yn Rhos LL22 8EE

Wedi gwneud datganiad o ddiddordeb fe adawodd y Cynghorydd Hefin WILLIAMS y cyfarfod.

Roedd y papurau cynllunio wedi ei gweld. Mae'r cais wedi ei orfodi ar ol newid yn y rheolau o gwmpas pits slyri. Roedd dim gwrthwynebiad i'r cynllun. Y Clerc i ysgrifennu i'r Adran Gynllunio.

Wedi gorffen y sgwrs ymunodd Cynghorydd Hefin Williams y cyfarfod.

## **CAIS NEWYDD**

**Cyfeirnod: 0/52202**

**Ymgeisydd: Mr Mark Blissitt**

Cynllun: Traciau fferm, ar gyfer siediau amaethyddol, cytiau moch a phorthwr gwair (Cymeradwyaeth Amaethyddol Ymlaen Llaw)

Safle: Aelwyd Uchaf Peaceful Mountain Farm Betws yn Rhos Conwy LL22 8AG

Roedd y papurau cynllunio wedi ei gweld. Roedd cynllun blaenorol am adeiladu ty ar y safle wedi cael ei wrthod gan yr Adran Gynllunio.

Roedd pryderion wedi cael ei gwneud i'r Cynghorion fuasai yn rhoi blaenoriaeth perygl i ddatblygiadau yn aradaloedd gwledig mewn safle gwyrdd. Roedd pryder fuasai'r cynllun i'w weld yn glir ac allan o'i le. Roedd tebygrwydd fuasai traffig ychwanegol ar ffordd gul. Roedd cwestiwn am cynaliadwyedd y tymor hir y cynllun ac hefyd fod y cynllun yn erbyn nodyn TA 24.

Y canlyniad oedd fuasai'r ymgais yn cael ei wrthwynebu.

Roedd y Cyngor yn fodlon trafod yr ymgais eto os oedd dogfennau ychwanegol yn cael ei cyflwyno i'r Adran Gynllunio.

Nodwyd fod yr enw Peaceful Farm ar yr ymgais. Roedd dim fferm gyda'r enw yna. Oes proses i ddilyn i newid enw fferm?

Y Clerc i ysgrifennu i'r Adran Gynllunio hefo'r penderfyniad ac i ofyn am y newid enw.

**CAIS NEWYDD**

**Cyfeirnod: 0/52175**

**Ymgeisydd: Mr Berwyn Jones**

Cynllun: Caniatâd amlinellol i godi annedd ar gyfer menter wledig newydd ar dir ym Mryn Ffanigl Ganol, Abergele

Safle: Bryn Ffanigl Ganol Bryn Ffanigl Road Rhyd Y Foel Betws Yn Rhos LL22 8NF

Wedi gwneud datganiad o ddiddordeb fe adawodd y Cynghorydd Glana HUMPHREY y cyfarfod.

Roedd y papurau cynllunio wedi ei gweld. Nodwyd fod ymgais blaenorol (0/51432) wedi cael ei drafod gan y Cyngor Cymuned.

Roedd dim gwrthwynebiad i'r ymgais cynllun amser hynnu. Dyna barn y Cyngor eto.

Un cwestiwn wedi ei godi oedd fuasai'r cynllun yn cael arian Adran 106 tuag at dai afforddiadwy. Y Clerc i ysgrifennu i'r Adran Gynllunio.

Wedi gorffen y sgwrs ymunodd Cynghorydd Glana HUMPHREY y cyfarfod

**CAIS NEWYDD**

**Cyfeirnod: 0/52145**

**Ymgeisydd: Mr & Mrs Davies**

Cynllun: Lagwn Slyri Amaethyddol Arfaethedig

Safle: Peniarth Fawr Abergele Road Betws Yn Rhos LL22 8AE

Roedd y papurau cynllunio wedi ei gweld. Mae'r cais wedi ei orfodi ar ol newid yn y rheolau o gwmpas pits slyri. Roedd dim gwrthwynebiad i'r cynllun. Y Clerc i ysgrifennu i'r Adran Gynllunio.

### **CAIS NEWYDD**

**Cyfeirnod: 0/52118**

**Ymgeisydd: Mr Dewi Jones**

Cynllun: Mast monitro meteorolegol 80m dros dro gydag amddiffyniad rhag mellit (gyda'r uchder cyffredinol yn ddim uwch na 80.4m) am gyfnod o dair blynedd o ddyddiad y gweithrediad cyntaf, i gofnodi data ar yr adnodd gwynt sydd ar gael ar y safle.

Safle: Tir Pori Amaethyddol i'r De o Fynydd Llanelian

Roedd y papurau cynllunio wedi ei gweld. Mae sylwadau y cymydog wedi cael ei nodio ac mae yn amlwg fod gan y cymydog bryderion am y cynllun. Fydd rhaid i'r Adran Gynllunio ystyried y sylwadau.

Roedd pryderion fuasai'r ymgais yn arwain i fferm wynt yn y safle yn y dyfodol. Fydd hwn yn fater fydd rhaid ystyried os daw yr amser.

Heblaw am y materion dyfodol roedd dim gwrthwynebiad ac mae y Cyngor yn fodlon gadael y penderfyniad i'r Adran Gynllunio.

Y Clerc i ysgrifennu i'r Adran Gynllunio.



**Cyfeirnod: 0/52094**

**Ymgeisydd: - Pwyllgor Chwaraeon**

Cynllun: Creu llefydd parcio newydd (ddim wedi dechrau) a gosod cynwysyddion storio (wedi'u gosod)

Safle: Sports Pavilion Dolwen Road Betws Yn Rhos LL22 8AW

**Yn cael ei drafod gan Adran Cynllunio.**

**Cyfeirnod: 0/52040**

**Ymgeisydd: Mr ELGAN JONES**

Cynllun: CLADDFA SILWAIR ARFAETHEDIG A GWAITH  
CYSYLLTIEDIG

Safle: Bryn Dansi Bryn Dansi Road Dolwen Betws Yn Rhos LL22 8NS

**Wedi cael ei gymeradwyo gyda amodau gan Adran Cynllunio  
17/12/24**

**Cyfeirnod 0/52035**

**Ymgeisydd: Mr Peter Ryan**

Cynllun: Codi wal gerrig ar y ffin yn nhu blaen yr eiddo, gyda chilbostiau pren a giât bren

Safle: Ty'n Y Coed, Cilgwyn Road, Llanellian Yn Rhos, Colwyn Bay. LL29  
8YR

**Wedi cael ei gymeradwyo gyda amodau gan Adran Cynllunio  
21/11/24**

**Cyfeirnod: 0/51976**

**Ymgeisydd: Mrs Kate Fairhurst**

Cynllun: Adeiladu estyniad deulawr i ddarparu ystafell fyw deuluol ar y llawr gwaelod a phrif ystafell wely yn cynnwys en-suite ac ystafell wisgo ar y llawr cyntaf. Adeiladu dormer blaen gan ychwanegu un ffenestr Velux ar ochr y Gogledd a 3 ffenestr Velux ar ochr y De, i ddarparu goleuni naturiol. Y to i gynnal estyniad i baneli ffotofoltäig presennol

Safle: Bryn Carneddau Ty Mawr Road Betws Yn Rhos Abergele Conwy LL22 8D

**Wedi cael ei gymeradwyo gyda amodau gan Adran Cynllunio  
5/11/24**

**11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL**

Mae adroddiad Archwiliad Cymru yn cael ei ddisgwyl. Mae hyn yn debyg i ambell o Gyngorhau Cymunedau eraill.

**12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD**

Diweddariad gan Cynghorydd Ifor Lloyd fod manylion Setliad Refeniw a Chyfalaf Dros Dro Llywodraeth Leol ar gyfer 2025-26 wedi cyrraedd gan Llywodraeth Cymru.

Fydd Sir Gonwy yn derbyn £218,586.000 am 2025/2026 dyrchafiad o £7,835.000 (3.7%)

Fydd y papurau yn cael ei rhanu hefo'r Cyngor gan Cynghorydd Lloyd.

**13. CYNNAL A CHADW ADNODDAU ARDAL Y CYNGOR CYMUNEDOL**

**a. Caeau Chwaraeon Plant -Betws yn Rhos/Llanelian.**

Mae y Clerc wedi trafod y cynllun hefo Mr David Dudley – Arolygydd Caeau Chwaraeon y Cyngor Sir.

Mae y cynllun ar ddwy amcangyfrif gan G.L. Jones a Creative Play wedi cael ei rhanu hefo Mr Dudley. Mae yn cydweld fydd yr offer eisio ei

atgyweirio fel cynllun G.L. Jones. Nid oes gan Cyngor Conwy y cyllid i wneud y gwaith.

Ynglyn a Creative Play barn Mr Dudley yw nad ydi'r offer yn addas i Gae Chwaraeon cyhoeddus ond yn addas i ysgolion.

Fydd Mr Dudley yn fodlon cynorthwyo y Clerc yn 2025 i gael offer addas ac i gael grantiau at y gost.

Wedi cael ateb y Clerc i gysylltu hefo CVSC ynglyn a grantiau ar gael.

b. **Diffibrilwyr.**

Y gwaith i leoli diffibrilwr newydd yn safle y bont newydd yn Dawn heb ei gwblhau. Mae Ifan Rowlands (Rheolydd Goleuadau Strydoedd Cyngor y Sir) wedi diweddarau fod Scottish Power ddim yn fodlon rhoi postyn yn cario trydan yn y safle gan fod y ffordd mor cul. Y Clerc yn mynd i wneud ymholiadau os oedd posib cael diffibrilwr hefo pŵer solar.

Mae pump pad nweydd wedi cael ei prynu. Mae pads yn y ddau diffibrilwyr yn pentref Betws yn Rhos ac yr un yn Llanelian wedi cael ei adnewyddu. Fyddent yn iawn tan 15/6/2006.

Mae'r pads yn y diffibrilwyr yn Dolwen a Holland Arms yn gorfod cael ei adnewyddu ar 21/3/2025.

Y diffibrilwyr yn Llanelian a Holland Arms heb gael ei trosglwyddo. Y Clerc yn dal i drio cysylltu a Tomos Hughes.

c. **Yr Hwb**

Mae angen gwirfoddolwyr iw gynnal, a bydd ar agor o 9:00yb hyd at 12:00 yb bob bore Dydd Mawrth yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos.

d. **Gwlau blodau/Meinciau Ffordd Abergele**

Mae Hilda Gibbs yn mynd i edrych ar ol y potiau blodau a'r meinciau yn symud ymlaen.

e. **Toiledau yn Betws yn Rhos/Llanelian**

Diweddariad gan Cyngorydd John Evans fod Pwyllgor Eglwys Betws yn Rhos yn edrych at atgyweiro adeilad tu allan i'r eglwys fel toiled. Fydd diweddariad ar gael pan fydd cynnydd yn y planniau. Mae'r Cyngor Cymuned yn fodlon i gefnogi Pwyllgor yr Eglwys.

Maer Clerc wedi trafod y toiledau yn Llanellian hefo Gary Williams -Rheolwr Cyfleusterau y Cyngor - ac fydd yn bosib i'r Cyngor Cymunedol gymeryd y cyflusterau drosodd yn symud ymlaen. Mae Mr Williams wedi rhoid amcangyfrif costau o £6,826.87 i redeg y toiledau dros 2025/2026. Roedd pawb yn cydweld fydd rhaid cynwys y costau yn y cais praesept. Mae y toiledau wedi ei cau tan Ebrill 2025.

f. **Materion arall**

Mae'r Clerc wedi ysgrifennu i Cyngor y Sir ynglyn am led y rhwystr (barrier) ar ffin y llwybyr cyhoeddus a'r ffordd fawr yng nghanol pentref Betws yn Rhos a hefyd y 'gazebo' dros yr afon yn Llais Afon sydd yn debyg i amharu hefo ochr yr afon. Mae Cyngor y Sir wedi ateb ac yn cael ymchwil o dan cyfeirnod 112632. Mae asesiad fod y gwaith yn ddi-frys.

Ynglyn a'r mater gododd Cyngorydd Irwedd Griffiths ar y 15fed Gorffennaf am dro cul ar y ffordd rhwng Nant y Cohl a Bryn Derwen mae y gwaith yn dal i ddisgwyl.

Ynglyn a Safle Bws gorchuddiedig yn Betws yn Rhos. Mae y Clerc wedi ysgrifennu i'r Cyngor Sir. Yn disgwyl ateb.

Ynglyn a tocio ochr y ffordd ar gwrych yn Ffodd y Figin rhwng fferm Bryn Elain a Llanellian. Mae y gwaith wedi cael ei gwblhau.

Ynglyn a'r carafan fawr wedi cael ei danfon i Glan Gors, Llanellian mae yr Adran Gynllunio wedi cadarnhau fydd y carafan yn cael ei defnyddio fel lle byw ychwanegol. Dim eisio cais cynllunio.

Y Clerc wedi ysgrifennu i'r Cyngor Sir ynglyn coeden yn tyfu ar wal yn agos i'r hen doiledau/flats LLais Afon yn Betws yn Rhos. Mae'r Cyngor wedi ymateb nad ydynt yn perchnogi y tir. Roedd dim gwybodaeth yn y Cofrestr Tir ac mae'r Cyngor Sir yn gwneud ymholiadau.

Mae coeden yn tyfu yn wyllt i'r ffordd yn rhif 2 neu 3 Ffordd Dolwen, Betws yn Rhos. Y Clerc i atgoffa y Cyngor Sir

Dim diweddariad os fydd rhaid symud y goeden mwnci o'r safle yn ymyl y Pafiliwn Chwarae. Mae'r cais cynllunio yn cael ei drafod gan Adran Cynllunio Sir Gonwy.

Roedd goleuadau nadolig yn Betws yn Rhos wedi cael ei croesawu gan y Cymuned. Y Clerc i ofyn i Cyngor Conwy ei tynnu i lawr. Cyngorydd Bryn Jones yn fodlon cadw nhw yn ddiogel.

Roedd cwynion wedi cael ei derbyn am cyflwr Ffordd Dolwen o Dolgau i Dolwen. Eisio lori i ysgubio'r ffordd. Y Clerc i ysgrifennu i'r Cyngor Sir.

#### **14. Y GYLLIDEB FLYNYDDOL / PRAESEPT**

Fe drafodwyd y praesept am 2025/2026

Fydd y ffurflen gais yn cael ei gyrru i'r Cyngor Sir erbyn 17/1/2025

Fydd rhaid cynnwys y costau isod

1. Costau i'r Cyngor Cymuned cymeryd toiledau Llanelian drosodd. Amcangyfrif o £4,800 yn cael ei gytuno.
2. Cost WiFi yn Betws yn Rhos a Llanelian tua £936 y flwyddyn
3. Cost pads diffibrilwyr - £240.00
4. Cyflog y Clerc SCP 17 i godi o 1/4/2025 i £15.58 yr awr.
5. Cais gan Mrs Ann Vaughan am grant o £600.00 tuag at y gost o dorri glaswellt yn Mynwent Trofarth. Cytunwyd grant o £500.00
6. Cais gan Mr Richard Hughes, Capel Hyfrydle, Betws yn Rhos am grant tuag at Eisteddfod Calan Mai ar 26/4/2025. Cytunwyd grant o £300.00
7. Eisteddfod Calan Mai ar y 26/4/2025 – grant o £300.00 yn cael ei gytuno.

Cafodd y Cyllid Blynyddol am 2025/2025 ei drafod. Cytunodd y cyllid o £20,387.76

Cytunodd i'r cais praesept fod yn £18,000 hefo £2,387.76 yn cael ei ddefnyddio o cyfrif Banc y Cyngor Cymunedol.

#### **15. FFERMYDD GWYNT TIROL AC ALLTRAETH AWEL Y MOR/GWYNT Y MOR/MONA**

Mae'r pwnc yma yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod o'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn cadw llygaid craff ar unrhyw gais a ddaw i fyny.

Gweler y linciau yma am wybodaeth i'r Ffermydd gwynt Alltraeth:

[Overview](#)

[About us](#) [About the Project](#) [What the Project will look like](#) [Processes and Next Steps](#)

[Our work so far](#) [Interactions with other marine users](#)

[Information Hub](#) [Visualisations of the windfarm](#) [Interactive map](#).

#### **16. CANOLFAN GYMUNEDOL LLANELIAN YN RHOS**

Mae yr eitem yma ar yr agenda er mwyn cadw cofnod o sut mae y gwaith yn dod yn ei flaen, ac er mwyn rhoi cefnogaeth pan y bydd angen.

Diweddariad gan y Clerc fod ateb heb ei gael gan B.T. Y Clerc i ddilyn i fynnu.

Y dyddiad am agoriad swyddogol y Ganolfan Gymunedol yw rhwng 2 – 4 or'gloch prynhawn dydd Sadwrn 18/1/25. Cyngorion Ifor Lloyd, Glenna Humphrey, Irwedd Griffiths a'r Clerc yn mynychu'r agoriad. Ymddiheuriad gan Cyngorydd John Evans fydd are ei wyliau.

#### **17. Y GADLAS**

Fydd erthygl yn cael ei ysgrifennu am Neuadd Gymunedol Llanelian.

#### **18. UNRHYW FATER ARALL**

Roedd cytuniad i'r Clerc hysbysu swydd wag Cyngorydd ar y Cyngor Cymuned ar y wefan. Unrhyw unigolyn hefo diddordeb i cyswllt hefo'r Clerc

Roedd dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor am 2025/2026 wedi cael ei rhannu a pawb yn cytuno hefo'r dyddiadau.

Diweddariad gan Cyngorydd Gwyn Jones ei fod wedi cael cais gan Gymdeithas Chwaraeon Betws yn Rhos am grant gan y Parc Solar i adnewyddu a ymestyn y maes parcio. Roedd un amcangyfrif o dros £69,000 wedi ei dderbyn. Fydd angen cael amcangyfrifau ychwanegol cyn rhoid cais i'r Parc Solar.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 10 yh.

CADEIRYDD .....

John EVANS

CLERC..... Mel Jones

DYDDIAD: 3ydd Chwefror 2025